**CYNGOR SIR Y FFLINT  PWYLLGOR CYSAG**
**7 Hydref 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor CYSAG Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol ar 7 Hydref 2021.

**<u>HEFYD YN BRESENNOL:</u>**

**<u>Aelodau Etholedig:</u>**
Cyng. Chris Bithell (CB); Cyng. Ian Roberts; Cyng. Dave Mackie (DM); Cyng. Janet Axworthy (JA);  Cyng. Adele Davies-Cooke; Cyng. Marion Bateman

**Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Llanelwy)**
Jennie Downes (JD); Marina Parsons (MP), (Pennaeth Trelawnyd)

**<u>Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig (Esgobaeth Wrecsam)</u>**
John Morgan (JM), Pennaeth, Ysgol Gatholig Sant Anthony, Saltney

**<u>Cynrychiolwyr ysgol uwchradd</u>**
Catherine McCormick (CM), Pennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Fflint

**<u>Cynrychiolwyr Athrawon Cynradd</u>**
Amira Mattar (AM), Ysgol Gynradd Westwood, Bwcle

**<u>Cynrychiolwyr Addysg</u>**
Vicky Barlow (VB), Uwch Reolwr Gwella Ysgolion; Jane Borthwick (JB) Cynghorydd Gwella Ysgolion

**<u>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</u>**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Wendy White (cynrychiolydd RC);
Claire Homard (Prif Swyddog); Cynghorydd Colin Legg; Parch. Huw Powell Davies (cynrychiolydd yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru); Simon Piercy (cynrychiolydd Ffederasiwn Penaethiaid Ysgolion Cynradd)

**<u>Hefyd yn bresennol</u>**
Kim Brookes, Uwch Reolwr, Addysg ac Ieuenctid (Clerc); Sharon Thomas, Clerc Pwyllgor

Cadarnhaodd ST fod y cyfarfod yn cael ei recordio. Croesawodd KB gydweithwyr i'r cyfarfod.

**1. <u>PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR AR GYFER Y FLWYDDYN 2021 - 2022</u>**

Diolchodd y Clerc i'r Cynghorwyr JA ac MB am eu henwebiadau arfaethedig, a dywedodd bod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ethol Is-Gadeirydd a

Chadeirydd yn awtomatig. Felly cafodd Catherne McCormack fel yr Is-Gadeirydd presennol ei henwebu yn Gadeirydd ar gyfer 2021/22. Derbyniwyd yr enwebiad gan y Cyng. CB ac eiliwyd gan y Cyng. JA.

**Cytunwyd:** Penodi CM fel Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD AR GYFER Y FLWYDDYN 2021-22

Hysbysodd y Clerc y cyfarfod am y patrwm cylchdroi ar gyfer enwebu swyddogion drwy naill ai Aelodau; cynrychiolwyr ysgol neu eglwys. Felly, gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer is-gadeirydd gan gynrychiolwyr yr eglwys. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau felly roedd y Cyng CB yn cynnig y Cyng MB ac eiliwyd gan y Cyng ADC.

**Cytunwyd:** Penodi'r Cyng. MB yn Is-Gadeirydd ar gyfer 2021/22

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Ni ddatgelwyd dim heblaw Cynghorwyr sy'n llywodraethwyr ysgol.

## 4. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2021

Cytunwyd fel cofnod cywir.

**Materion yn codi:**

VB i anfon dolen gwefan Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru Rhagwelir y bydd y fframwaith newydd ar gael erbyn diwedd y tymor. Cynllunio ar gynhadledd Maes Llafur y Gwanwyn a rhannu adnoddau ar draws Cymru ar y gweill; cynllunio ar gyfer cefnogaeth gyda datblygiad proffesiynol ar y cwricwlwm newydd ar gyfer Tymor yr Haf a gweithredu ar y CYSAG i ddatblygu ein Cyngor Ymgynghorol Sefydlog newydd fel y bydd angen o dan y fframwaith newydd.

**Cam gweithredu:** cynigion ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog newydd i gael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Tachwedd ar gyfer trafodaeth.

## 5. CWRICWLWM I GYMRU 2022

Dosbarthodd Jane Borthwick, Ymgynghorydd Dysgu Cynradd (JB) enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau mae ysgolion wedi bod yn rhan ohonynt yn ystod y tymor hwn ble maent yn dod â 4 diben bywyd drwy weithgareddau yn seiliedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg:

Mae Ysgol y Llan, Chwitffordd wedi bod yn gweithio gyda'u pwyllgor ethos i wella gwerthoedd ac ethos yn eu hysgol, roedd hyn yn golygu eu bod yn gyfranogwyr creadigol i'r ffordd mae pethau yn digwydd yn eu hysgol eu hunain. Maent wedi rhannu eu gwaith drwy restrau chwarae ar yr adran arferion da yn HwB – adnodd dysgu Cymru gyfan.

Mae Ysgol Nannerch ac Ysgol Nercwys wedi bod yn gweithio ar lawer o feysydd gwahanol sy'n bodloni 4 diben y cwricwlwm newydd: Arlunydd Preswyl; Crefyddau'r Byd, testun a fabwysiadwyd gan y disgyblion gan fod ganddynt ddiddordeb mewn Cristnogaeth a ffydd arall. Roedd disgyblion yn archwilio ac yn ymchwilio ffydd gwahanol bob wythnos ac yn creu arteffactau; dathlu gwerthoedd ysgol drwy Seren yr Wythnos a VIP.

Ysgol Sant Ethelwold yn Shotton: Plant blwyddyn 3/4 yn darllen y llyfr 'Rydym i gyd yn cael ein geni'n rhydd - Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol mewn lluniau'.

Ysgol Y Foel, Cilcain: wedi derbyn Gwobr Tirwedd yr AHNE i gydnabod eu prosiect ynni adnewyddadwy sy'n torri tir newydd. Mae disgyblion yn rhannu llwyddiannau'r ysgol a fydd o fudd i'r ysgol a'r amgylchedd a derbyn cydnabyddiaeth drwy Wobr Tirwedd yr AHNE.

Diolchodd y Cadeirydd i JB am ei chyflwyniad a chytunwyd i rannu gyda chydweithwyr ysgolion uwchradd. Roedd y Cynghorwyr CB a JA yn croesawu'r wybodaeth a chyfle i ddathlu gydag ysgolion, gyda'r straeon yn codi calon ac yn ysbrydoli. Cadarnhaodd JD y gellir rhannu mwy o enghreifftiau o weithgareddau a gynhelir yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.

**Cam Gweithredu:** Bydd VB yn diolch i'r ysgolion ac yn ystyried rhannu straeon newyddion yn fwy eang drwy'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol.

## 6. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar waith Estyn ar Gyfer 2021-22

Hysbysodd VB y cyfarfod fod Estyn wedi gohirio archwiliadau'r hydref i ganiatáu i ysgolion ganolbwyntio ar iechyd a lles a gofynion y cwricwlwm newydd a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Trefniadau archwilio newydd i gael eu treialu:

- Pump maes archwilio i fod yr un fath gyda Maes 1 yn ddysgu nid safonau
- Y dyfarniad adolygol i gael ei ddileu i ganiatáu canolbwyntio ar gorff yr adroddiad ar gryfderau
- Lleihau hysbysiad o arolwg o 15 diwrnod i 10 diwrnod
- Addoli ar y cyd yn parhau

Estyn yn parhau i fonitro ysgolion mewn categorïau gydag ymweliadau ymgysylltu, edrych ar ddysgu cyfunol ac adolygiadau thematig.

## 7. CYFARFODYDD I DDOD

Dywedodd VB y cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru ar 23 Tachwedd 2021; manylion i'w dosbarthu i'r aelodau a gofynnwyd am gynrychiolaeth rithiol.

Cynhelir cyfarfodydd CYSAG Sir y Fflint yn y dyfodol am 4.00pm:

Dydd Iau 25 Tachwedd 2021;
Dydd Mercher 9 Chwefror 2022 a
Dydd Mercher 8 Mehefin 2022

## UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cyng CB am ymholiad a dderbyniodd gan y Parch Huw Powell Davies ar gynigion ar gyfer cynrychiolaeth o'r eglwys yn y dyfodol ar CYSAG.

**Cytunwyd:** trafodaeth ar aelodaeth a chylch gorchwyl ar gyfer y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog newydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.